

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 13 AWST 2021

Yn Cynghorydd Mackie(Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Goddard a/ac Jacobsen

13 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

14 : CAIS AM DRWYDDED SAFLE - CONSPIRACY, HEOL Y PLWCA

Yn bresennol:

Ymgeiswyr:

Mr Akhtar a Dashan Patel gyda'r Athro Roy Light -  
Siambrau Sant Ioan yn eu cynrychioli; Caius Mills –  
Gwylwr, Cyfreithwyr Hugh James; Emily Brownell –  
Gwylwr Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Caerdydd.

### Y Cais

Derbyniwyd cais am Drwydded Safle gan Conspiracy (Caerdydd) Trading Ltd mewn perthynas â Conspiracy, 102-106 Heol y Plwca, Caerdydd, CF24 3DQ.

Mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais am y canlynol:

(1) Mewn perthynas â'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

- (i) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do).
- (ii) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (tu mewn).

(2) Disgrifiad o'r Safle (fel y nodwyd gan yr ymgeisydd):

"Lolfa Shisha, Diodydd Poeth, Wafflau, Cacennau ac Ysgytlaethau, Dim angen Trwydded Alcohol".

(3) Oni bai y nodir fel arall, gall yr eiddo fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac am unrhyw oriau sy'n codi yn sgil yr amseroedd ansafonol:

Dydd Llun i Ddydd Sul: 12:00 i 02:00

(4) Cynnal gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

- (i) Darparu adloniant wedi'i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do): Dydd Llun i Ddydd Sul 12:00 i 00:00
- (ii) Darparu lluniaeth gyda'r hwyrnos (dan do): Dydd Llun i Ddydd Sul: 23:00 i 02:00

## Sylwadau'r Ymgeisydd

Siaradodd yr Athro Light gerbron yr Is-bwyllgor, gan esbonio mai am Lolfa Shisha, yn gwerthu Coctels Ffug a Wafflau ac ati oedd y cais. Pibellau Shisha, Ddim yn gwerthu Alcohol a phawb yn eistedd. Roedd y safle wedi bod yn weithredol ers mis Mai 2021. Cyfeiriodd yr Athro Light at Bolisi Trwyddedu Cyngor Caerdydd sy'n nodi bod ceisiadau gan safleoedd nad ydynt yn gwerthu alcohol, gyda phawb yn eistedd ac sy'n cynnig cynhyrchion gwahanol i safleoedd eraill yn yr ardal, yn cael eu croesawu. Roedd yr Athro Light o'r farn mai'r holl bethau hynny oedd y cais hwn.

Nodwyd gwrthwynebiadau Heddlu De Cymru a'r adran Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd. Dywedwyd wrth yr Is-bwyllgor y bu trafodaethau defnyddiol rhwng yr Ymgeisydd a'r awdurdodau cyfrifol a chytunwyd ar amodau i sicrhau nad yw'r cais yn tanseilio'r amcanion trwyddedu nac yn tarfu ar y cymdogion. Mewn perthynas â'r gwrthwynebiadau dan Drosedd ac Anhrefn, esboniodd yr Athro Light fod Heddlu De Cymru bellach yn fodlon ar y cais gan nad oedd alcohol. Mewn perthynas â gwrthwynebiadau dan Niwsans Cyhoeddus, nodwyd bod un yn ymwneud â gwastraff; Dywedwyd wrth yr is-bwyllgor na fyddai'r safle'n cynnig gwasanaeth tecawê a bod ganddo contract sbwriel proffesiynol ar waith. Mewn perthynas â'r gwrthwynebiad dan Sŵn, nodwyd bod hwn yn broblem pan agorodd y safle am y tro cyntaf ac roedd yr awdurdod cyfrifol wedi awgrymu 23:00 ar gyfer adloniant a reoleiddir a 01:30 ar gyfer lluniaeth gyda'r nos, cytunwyd ar y rhain ynghyd â'r amodau eraill a awgrymwyd. Byddai arbenigwr sŵn i bennu lefelau priodol ac ni fyddai'r drwydded yn cael ei gweithredu nes y cytunwyd ar hyn a'i ychwanegu at y drwydded.

Ychwanegodd yr Athro Light, er nad oes angen trwydded bersonol ar gyfer y safle, y byddai un gan yr ymgeisydd o hyd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Is-bwyllgor, esboniodd yr Athro Light ei fod wedi gwyllo'r fideo a gyflwynwyd gan drigolion lleol, ond roedd yn amhosibl penderfynu ar ba lefelau y gosodwyd y fideo. Derbyniodd yr Athro Light fod sŵn wedi'i glywed ond y byddai'r amodau y cytunwyd arnynt yn lliniaru hyn.

**PENDERFYNWYD:** Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu'r Awdurdod Trwyddedu ei hun, CYMERADWYODD yr Is-Bwyllgor y cais, yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt.

Clywodd yr Is-bwyllgor gan yr ymgeisydd a gwrandawodd ar yr holl dystiolaeth a chyflwyniadau ac ystyriodd y deunydd ysgrifenedig. Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd Ddeddf Trwyddedu 2003, Canllaw Adran 182 a'i Ddatganiad Polisi Trwyddedu ei hun. Ystyriodd yr Is-bwyllgor hefyd yr holl sylwadau ysgrifenedig a wnaed.

Nododd yr Is-bwyllgor fod yr Ymgeisydd wedi derbyn amodau arfaethedig Heddlu De Cymru yn Atodiad C yr adroddiad cyn y cyfarfod, a'r amodau y cytunwyd arnynt gyda'r adran Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd, sef:

1. Ni weithredir y drwydded hyd nes y cytunir ar lefelau sŵn at ddibenion amod 2
2. Ni fydd sŵn sy'n deillio o'r safle o ganlyniad i adloniant a reoleiddir yn fwy na [ x dBA] fel y'i mesurir 1 metr o unrhyw annedd breswyl. *Lefel i'w*

*chytuno gyda Thîm Rheoli Llygredd y Gwasanaethau Cymdogaeth ar ôl cynhyrchu adroddiad sŵn arbenigol.*

3. Bydd dyfais sy'n cyfyngu ar sŵn yn cael ei gosod a'i chynnal a'i chadw mewn modd sy'n rheoli pob ffynhonnell o gerddoriaeth neu siarad wedi'i chwyddo y tu mewn i'r safle er mwyn atal niwsans sŵn i eiddo cyfagos. Bydd unrhyw gyfyngwyr sŵn yn cael eu gosod ar ôl ymgynghori â Thîm Rheoli Llygredd y Gwasanaethau Cymdogaeth ac yn unol ag argymhellion yr adroddiad sŵn arbenigol.
4. Bydd hysbysiadau clir a dealladwy yn cael eu harddangos ym mhob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion cyfagos drwy adael y safle a'r ardal yn ddistaw.
5. Bydd y Rheolwr neu gynrychiolydd enwebedig yn derbyn cwynion ac yn ymateb iddynt a bydd ganddo reolaeth lawn bob amser dros chwyddo sŵn.
6. Bydd gan o leiaf un aelod o staff drwydded bersonol.
7. Rhaid i'r Rheolwr neu'r cynrychiolydd enwebedig sicrhau nad oes unrhyw niwsans yn cael ei achosi gan sŵn sy'n deillio o'r safle drwy weithredu Polisi Hunan-blismona a fydd yn cynnwys gwiriadau sŵn y tu mewn a'r tu allan.
8. Bydd pawb sy'n ciwio y tu allan i'r safle yn cael eu rheoli mewn modd sy'n atal ymddygiad swllyd neu stwrlyd ac felly'n lleihau tarfu neu niwsans i gymdogion
9. Bydd gan y safle weithdrefn wasgaru ysgrifenedig â'r bwriad o sicrhau'r effaith fwyaf yn union cyn i'r safle gau, ac yn syth wedi hynny, drwy arfer mesurau rhagweithiol, i symud cwsmeriaid o'r safle a'r cyffiniau mewn modd sy'n achosi cyn lleied o aflonyddwch neu niwsans i gymdogion, preswyl a busnes, ac i gael yr effaith leiaf ar y gymdogaeth mewn perthynas â niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd ac anhrefn posibl.

O ystyried yr amodau y cytunwyd arnynt, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr Ymgeisydd wedi dangos yn llwyddiannus na fydd rhoi'r drwydded hon yn cael effaith negyddol ar yr amcanion trwyddedu. Felly, mae'r Is-bwyllgor yn penderfynu cymeradwyo'r cais yn amodol ar yr amodau y cytunwyd arnynt gyda Heddlu De Cymru a'r adran Rheoli Llygredd Iechyd yr Amgylchedd.

15 : EITEMAU BRYG (OS OES RHAI)

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.40 am